Dyfais Monitro Ynni – Cynllun Benthyca

A wyddech chi fod modd ichi fenthyca dyfais monitro ynni yn yr un ffordd ag y byddech yn benthyca llyfr, cryno-ddisg neu dvd? O'r 18fed o Fai 2010 ymlaen bydd trigolion Sir Gaerfyrddin yn gallu benthyca dyfais monitro ynni **am ddim** o lyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin.

Mynd i'r Afael â'r Wasgfa Gredyd!
Prydain yw'r gwaethaf yn Ewrop am wastraffu ynni. Mae gan Brydain arferion gwael megis gadael cyfarpar ymlaen ond yn segur ('standby') a fydd wedi costio £11 biliwn i breswylwyr erbyn 2010.

Ar gyfartaledd, mae pob cartref yn y Deyrnas Unedig yn gwario oddeutu £1,300 y flwyddyn ar ynni, ac mae hynny'n debygol o godi eto fyth wrth i brisiau ynni godi. Gallai gadael PlayStation 3 ymlaen ond heb ei ddefnyddio ("idle mode") ychwanegu £164 y flwyddyn at

Gellir defnyddio dyfais monitro ynni yn y cartref i helpu i arbed ynni ac arbed arian ar eich biliau.

Bydd yr uned arddangos (gweler y llun isod) yn dangos ichi faint o drydan rydych yn ei ddefnyddio a faint mae'n ei gostio.



Sut gallaf gael gafael ar Ddyfais Monitro Ynni?
Gallwch fenthyca dyfais monitro ynni **am ddim** o un o'r 14 o lyfrgelloedd yn Sir Gaerfyrddin, neu o un o'r 5 llyfrgell symudol.

- Rhydaman
- Brynaman
- Porth Tywyn
- Caerfyrddin
- Cross Hands
- Cydweli
- Llandeilo
- Llanelli
- Llangennech
- Llwynhendy
- Castellnewydd Emlyn
- Sanclêr
- Trimsaran
- Hendy-gwyn
- Llyfrgell symudol

Gallwch fenthyca'r uned am bythefnos. Daw llyfryn cyfarwyddiadau gyda'r ddyfais, ac mae'n hawdd i'w gosod ac yn gymorth i leihau'r ynni rydych yn ei ddefnyddio yn eich cartref.

I gael rhagor o wybodaeth am gynaliadwyedd a'r newid yn yr hinsawdd yn Sir Gaerfyrddin, cysylltwch ag:

Eurgain Powell
Ymgynghorydd Cynaliadwyedd
Cyngor Sir Caerfyrddin
cynaliadwyedd@sirgar.gov.uk
01267 224902

I gael rhagor o wybodaeth am ddefnyddio ynni'n effeithlon yn y cartref, neu i gael copi o'n Pecyn Cymorth ynghylch Defnyddio Ynni'n Effeithlon yn y Cartref, cysylltwch â:

Graham Harries
Swyddog Defnyddio Ynni'n Effeithlon yn y Cartref
Y Tîm Gwella Cartrefi
Y Gwasanaethau Tai
gharries@sirgar.gov.uk
01554 742254

I gael cyngor annibynnol ynghylch arbed ynni yn rhad ac am ddim, cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni drwy ffonio 0800 512 012 neu drwy fynd i: www.energysavingtrust.org.uk